# Y LWMPYN GWYDR

Gan MARY WILLIAM

DILYNAIS sawl trywydd wrth geisio olrhain hanes y lwmpyn gwydr yma a chyrraedd wal ddiadlam bob tro. Yna, wrth chwilio yn *Y Faner*, Ionor 12fed 1870, am rywbeth arall gwelais yr hysbyseb hon: *The Ruthin Soda-Water Company Ltd. Manufacturers of the celebrated Ruthin soda water, Champagne Lemonade, Seltzer Water, Potass Water and Aerated Ginger Beer.*

Yr oedd y marc masnach yn fawr: gafr wyllt rhwng dwy genhinen a'r geiriau GWLAD RYDD A MYNYDD I MI: y cyfeiriad oedd Cambrian Works, Ruthin. Ond nid oedd yr enw Ellis i'w weld yn unman.

Symudodd fy llygaid ar draws y dudalen, ac yn y golofn gyntaf ond yn llai o faint na'r llall yr oedd yr hysbyseb hon: PURE AERATED WATERS; o dan y geiriau yr oedd llun gafr a thair pluen a'r geiriau CYMRU AM BYTH ac yna y rhestr hon,

*"Ellis's Ruthin Soda Water . . Potass Water . . Seltzer Water, Lemonade, Lithia Water . . Lithia and Potass Water. For gout – the last named is a splendid remedy. Every cork is branded. R. Ellis and Son, Ruthin."*

Gwerthid y dyfroedd hyn gan fferyllwyr, gwestai, cyffeithwyr a chyfanwerthwyr. Yr oedd dau waith dwr felly yn cynhyrchu'r un nwyddau yn Ruthun.

Yn yr un rhifyn ceir hanes cinio Nadolig a roddwyd i "breswylwyr y tlotty gan Mr a Mrs Williams. Anrhegwyd hwy hefyd â thybaco a diod gref, a *taffy*, a phetheu eraill gan Mr a Mrs R.G. Ellis." Yr un teulu mae'n siwr.

* * * * *

NI ALLAF ymatal rhag dyfynnu hysbyseb arall a gafwyd yn *Y Faner* "Newydd da i bawb. Gwybodaeth sydd nerth. Os dymunwch gadw eich iechyd, y mae gwybodaeth tuag at eu sicrhau yn hanfodol. Os ydych yn parhau yn afiach er gwneud ymdrech i gael adferiad iechyd, pa beth ydyw yr achos? Dim ond hyn – diffyg gwybodaeth am y pwnc."

Mae'r geiriau yna'n hysbysebu "Pelenau llysieuol adferiadol WORSDELL KAYE." Dyna'r math o hysbysebu a gafwyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; uniongyrchol, moel heb ymgais i ddwyn perswâd arnoch ond yn taflu honiadau ysgubol atoch.

Ar ôl 1861, pan ddiddymwyd y dreth ar bapur, cynyddodd y galw am bapurau newyddion a gwelodd cynhyrchwyr nwyddau y cyfle i gynyddu eu gwerthiant trwy hysbysebu effeithiol. Wrth hysbysebu, roedd modd iddynt geisio newid arferion beunyddiol pobl a chreu galw a marchnadoedd newydd.

Byddai'r hysbysebion yn apelio at bob dosbarth ac wrth i'r farchnad ehangu yr oedd yn bosibl gostwng pris y cynnyrch. Yr oedd mynd mawr ar ddyfroedd naturiol iachusol at bob math o anhwylderau ond yn bennaf at buro'r gwaed.

* * * * *

MAE Frank Price Jones yn *Crwydro Gorllewin Dinbych* yn sôn am waith pop enwog R. Ellis a'i Feibion a sefydlwyd yn 1825. Sonia hefyd am y ffatri arall, gwaith y Cambrian a dynnai ei phrif ddeunydd crai o ffynnon o dan Park Road. Dyfynna Rhuddenfab wrth ddweud ei bod yn 210 troedfedd o ddyfnder ac "nid oes ffynnon arall debyg iddi'n cael ei defnyddio i'r amcan hwn trwy'r deyrnas."

Mae Samuel Lewis yn ei *Topographical Dictionary of Wales* yn 1833 yn sôn am y ffynhonnau hynafol, enwog am eu rhinweddau meddyginiaethol, a geid yn Nyffryn Clwyd. Sonnir am ffynnon Llandegla, a'i dŵr yn gwyrthiol wella *'the falling sickness'*, clwyf Tegla fel y'i gelwid.

Ar ôl ymolch yn y dŵr, offrymu grôt a gwneud rhyw ddefodau eraill wedi machlud haul, rhaid oedd treulio'r nos yng nghangell yr eglwys; yna ar doriad gwawr wedi gwneud offrwm arall, âi'r claf ymaith wedi'i iacháu.

Beth yw'r gwrthrych ar wahân i fod yn hysbyseb? Yn ei ganol, mae pant dwfn i gadw matsys: mae'r ochr allan yn arw fel bod modd tanio'r fatsien arni ac mae'n gweithio'n effeithiol iawn. O edrych ar y llun, aeth y smotiau duon sydd ar y llythrennau â'm sylw.

Euthum i edrych eto ar y gwrthrych a sylweddoli am y tro cyntaf, fod y smotiau yn las. Mae hyn yn awgrymu fod y llythrennau wedi'u peintio'n las ar un adeg. Pa bryd yw'r cwestiwn.

Rhywbeth i roi ar far tafarn fyddai; rwy'n tybio mai ar ddechrau'r ganrif y byddai hynny. Ei brynu yn Cheltenham a wnes i. Dwn i ddim ydy hynny'n gliw. Efallai y gall rhywun arall ein goleuo.

# CADW COFNOD Y CAPEL

## Gan Edgar W. Parry

DIDDOROL oedd darllen erthygl Trevor Watts ar y "Trysorau a Gadwodd y Capel" yn Y CASGLWR. Ac o'i ddarllen fe'm hatgoffodd o drysor arbennig yng Nghapel y Ceunant, Llanrug yn Arfon. Nid trysor o aur nac arian ond trysor a hanes ardal wedi ei grynhoi rhwng cloriau llyfr yn dwyn yr enw trist "Rhestr Marwolaethau Perthynol i Aelodau Eglwys Y Ceunant 1876-1989".

Mae'r rhai sydd yn hel achau yn ymddiddori'n fawr mewn llyfr fel hwn – a dyna fel y bu i minnau fodio fy ffordd drwyddo – oherwydd y mae'n dangos enw, cyfeiriad, oed a dyddiad marwolaeth yr aelodau, gwybodaeth yn wir sydd yn hollol angenrheidiol i allu chwilio mwy i'r achau.

Ond nid llyfr felly yw Rhestr Marwolaethau Capel Y Ceunant. Mae'n wir fod yr enwau a'r dyddiadau yma wrth gwrs, ond y mae yma lawer iawn mwy.

Yn wir, fe geir traethawd o ddwy neu dair tudalen wedi ei ysgrifennu am ambell aelod, sy'n rhoi darlun clir iawn i ni o'r personau hynny, ac yn wir, darlun o'r gymdeithas a'r amserau hefyd.

* * * * *

Y MAE dros bedwar ugain mlynedd wedi mynd heibio er i'r cofnod olaf gael ei ysgrifennu yn y llyfr hwn, ac mae'n debyg nad oes ond dyrnaid bychan o bobol wedi cael cyfle i agor y cloriau er hynny. Dyna biti!

Mae'r llyfr yn dechrau yn Ionawr 1876 gyda dwy linell syml:

"Catherine, plentyn Robert ac Ann Parry, Panthyfryd, yr hon a fu farw Ionawr 26, 1876, oed - 10 mis a phum diwrnod"

Ac yna ar waelod yr un tudalen fe welir y cofnod yma:

"Ellin, lodes fach Robert ac Ann Parry, Panthyfryd, yr hon a fu farw Mehefin 15fed, 1876 yn 1 ml. a 3 mis oed.".

Ie, yr ail o'r efeilliaid wedi marw. Yr Ysgrifennydd ar y pryd oedd Robert Parry, eu tad. Oedd, 'roedd yn amser caled a hawdd dychmygu sut aelwyd oedd ym Mhanthyfryd ym misoedd cynnar 1876.

Mae'r llyfr yn frith, wrth gwrs, o ragoriaethau amryw o'r aelodau, ond yr un efallai yn fwy trawiadol na'r un am Thomas Jones, Tanygraig, lle y dywedir amdano mewn traethawd o ddwy dudalen:

"Yr oedd bob amser lawn ofn yr iâs marwolaeth fel yr ydoedd wedi gwneyd yn bwnc o ymofyniad i'r nefoedd ganiatau iddo gael myned heb brofi cystudd chwerw iawn, ac nid yw mor ryfedd i un oedd yn meddu cymaint o ddylanwad ar y nefoedd gael ei wrando yn y peth hwn, fel y gellir dweyd yn ei amgylchiad ef 'huno y mae'."

Nid canmol yn unig a welir yn y llyfr, a sonnir am un –

"nad oedd yn ddarllenwr cywir nac yn feddyliwr cryf iawn".

ac eto am un arall –

"er nad oedd yn meddu ar lais swynol a deniadol pan yn codi i fyny i draethu ar fater neu ddweyd ei brofiad ei hun, eto 'roedd rhyw afaelgarwch a nerth yn y gwirionedd fel ei traddodid yn ei symledd ganddo".

A phan y bu Robert Parry ei hun farw yn 1884 yn 43ain oed dyma a ddywedir amdano –

". . . er galar a thristwch mawr i'r holl wlad bu farw ar hanner dydd bywyd o weithgarwch mawr a gwasanaeth gwerthfawr yn grefyddol a chymdeithasol, a hebryngwyd ef i dy ei hen gartref gan dyrfa fawr o amryw filoedd o bobol yr hyn a dystiai ei fod yn llanw lleoedd pwysig mewn byd ac Eglwys. Cyflawnai bob swydd yr ymgymerai a hwynt yn ffyddlon a llwyr, ond er cymaint y gwaith mewn cylchoedd cymdeithasol a gyflawnai, nid oedd hynny rhywfodd yn atal dim ar ei weithgarwch crefyddol"

'Roedd Robert Parry (neu Robert Parry'r Llywydd fel yr adnabyddid ef) yn un o sefydlwyr Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru ac ef oedd Llywydd yr Undeb pan fu farw.

Ardal fechan, wasgarog yw'r Ceunant ac o ddilyn y Rhestr Marwolaethau yn fanwl mae'n hawdd gweld fod hanes yr ardal ynghlwm wrth hanes y Capel.

Mae'n debyg nad oes fawr ddim gwaith ymchwil wedi ei wneud i gofnodion o'r fath ac y mae hynny yn resyn garw. Mae'n debyg hefyd fod amryw o'r llyfrau yma wedi mynd ar ddifancoll dros y blynyddoedd, ond 'rwy'n sicr hefyd fod amryw eto yn dal i lechu a hel llwch yng nghefn rhyw hen gwpwrdd mewn sawl festri.

Mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau cadwraeth y rhain ar gyfer y dyfodol. Fe ddylent gael eu hanfon i'r Archifdai fel y bônt ar gael i chwilotwyr a haneswyr y dyfodol gan eu bod yn ddogfennau cymdeithasol o bwys.


## AR WERTH

*Daniel Owen: Profedigaethau Enoc Huws.*
*Hugh Evans: Cwm Eithin.*
*W. J. Gruffydd: Owen Morgan Edwards: cofiant, cyfrol 1 1858-1883.*
*J. Daniel: Archaeologia Lleynensis, sef Hynafiaethau Penaf Lleyn.*
*Llais Rhyddid, 1902-05.*
*D. Gwenallt Jones: Yr Areithiau Pros.*
*Eliseus Williams (Eifion Wyn): Telynegion Maes a Môr.*
*R. H. Watkins: Cofiant a gweithiau y Parch O. G. Owen (Alafon).*
*R. W. Jones: Y Parchedig John Puleston Jones.*
*H. Williams a T. Evans: Islwyn's English Poems.*
*Ledi Charlotte Guest: The Mabinogion.*
*R. Evans (Cybi): Yr arloeswr solffa yn Sir Gaernarfon, yr hwn a gyfenwid "Cae'r Go".*

*Mr C. Jones, Y Goedlan, Lon Glen Elen, Abererch, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6BX. Ffôn gyda'r nos Pwllheli 613457.*